# Cynllun Gweithredu Cymdogaeth



# DWYRAIN Y BARRI

## Y Barri

Vale Homes
Safe in our hands

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# CYNLLUN GWEITHREDU CYMDOGAETH

## I ardal Dwyrain y Barri

yma'r cynllun gweithredu cymdogaeth i ardal Dwyrain y Barri. Mae dwy ysgol gynradd yn yr ardal, sef Ysgol Gynradd Palmerston ac Ysgol Gynradd Tregatwg.

Mae gan yr ardal hon nifer o siopau sydd o fewn pellter cerdded. Mae gan yr ardal lwybrau bysiau da a gorsaf reilffordd Tregatwg.

Yn yr ardal, ceir cymysgedd o fathau o eiddo gyda nifer o eiddo yn ddynodedig ar gyfer pobl 60+ oed.

## Ffeil ffeithiau cymdogaeth

- 30 Mehefin 2017- Mae 1,418 o bobl yn byw yn yr ardal.
- Mae gan yr ardal ddosbarthiad trefol/ gwledig o: Ddinas a thref ddinesig.
- Y Bwrdd Iechyd Lleol yw Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Yr Ardal Heddlu yw Heddlu De Cymru.
- Yr Awdurdod Tân ac Achub yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

Mae 214 o eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor yn yr ardal. Mae 128 o dai, 33 o fflatiau, 12 o fflatiau i bobl hŷn a 41 o fyngalos i bobl hŷn. Hefyd ceir 39 garej.

Mae'r eiddo o fath adeiladu traddodiadol ac fe'u hadeiladwyd rhwng 1945 a 1974.


Palmerstown
Cadoxton
SOLENT ROAD
VINCENT CLOSE
WOLFE CLOSE
LANGLANDS ROAD
FALCON





# Beth yw Cynllun Gweithredu Cymdogaeth?

# Beth yw'r nodau?





Mae Cynllun Cymdogaeth Dwyrain y Barri yn nodi ystod o flaenoriaethau lleol penodol sy'n bwysig i bobl sy'n byw ar yr ystad. Mae'r cynllun yn ystyried ystod eang o wybodaeth gan gynnwys canlyniadau ymgynghori â phreswylwyr, canlyniadau'r arolwg boddhad tenantiaid ar raddfa fawr, data economaidd-gymdeithasol gan gynnwys iechyd, cyflogaeth a thlodi ynghyd â themâu cylchol a nodwyd gan staff. Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn ffurfio'r blaenoriaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl, gan gynnwys materion amgylcheddol, hyrwyddo cymunedau gweithredol ac ymdrin â throsedd a diogelwch.

Nodir nifer o gamau sy'n ymdrin â'r materion blaenoriaeth ar yr ystad, a bydd y rhain yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn gwella'r gymdogaeth a gwneud gwahaniaeth i fywydau tenantiaid.

## Gwybodaeth allweddol i'r gymuned

| | |
|---|---|
| Diogelwch cymunedol | Roedd 59% o denantiaid yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n unol â chyfartaledd y Fro.<br>Roedd cymdogion swnllyd yn codi rhai pryderon yn yr ardal gyda 21% o denantiaid yr ardal yn nodi bod hon yn broblem, sy'n sylweddol is na chyfartaledd y Fro o 35%.<br>Nid oedd defnyddio cyffuriau yn cael ei ystyried yn fater blaenoriaeth yn yr ardal gyda 21% o denantiaid yn gweld hyn fel pryder, sy'n debyg i gyfartaledd y Fro o 26%.<br>Yn ystod arolwg diweddar o denantiaid, nododd 80% o'r tenantiaid sy'n byw yn yr ardal hon eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn. |
| Cyswllt â chwsmeriaid | Dywedodd 86% o'r preswylwyr fod staff yn barod i helpu a theimlai 89% bod staff yn gallu delio â'u hymholiad yn gyflym ac yn effeithiol<br>Roedd 76% o denantiaid o'r farn ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r person iawn o'i gymharu â chyfartaledd y Fro o 65%.<br>Mewn archwiliad cymdogaeth diweddar, nododd 55% o denantiaid eu bod yn adnabod Tîm Rheoli Cymdogaeth yr ardal. |
| Galw am gartrefi | Mae galw rhesymol am gartrefi yn yr ardal hon gyda 22 ymgeisydd ar gyfartaledd yn cynnig am eiddo pan fyddant yn cael eu hysbysebu i'w hail-osod.<br>"Synnwyr da o gymuned". "Cymdogion da." |
| Mynediad at wasanaethau | Mae gan bobl yn y gymdogaeth fynediad da at siopau a gwasanaethau. Mae gwasanaethau bws da sy'n golygu y gall tenantiaid fynd i mewn i ganol tref Y Barri neu Gaerdydd neu ymweld ag archfarchnadoedd yn hawdd. "Lleoliad canolog, gwasanaethau bws da." |
| Ôl-ddyledion rhent | Dywed 92% o denantiaid yr ardal fod eu rhent yn cynrychioli gwerth am arian. Mae 33% o denantiaid mewn ôl-ddyledion rhent sy'n uwch na'r cyfartaledd ar draws y Fro o 31%, mae cyfran uchel y tenantiaid yn derbyn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol i dalu eu costau tai |
| Atgyweirio | Yr amser aros ar gyfartaledd am atgyweiriadau oedd 8 diwrnod.<br>Roedd 87% o denantiaid yr ystad yn fodlon â'r gwasanaeth atgyweirio ac roedd 88% yn teimlo bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud yn gyflym. |
| Cyflogaeth | Mae gan y gymdogaeth lefelau uchel o ddiweithdra o'i chymharu â chymdogaethau eraill yn Y Barri, gyda 3% o bobl o oedran gweithio yn hawlio JSA (yn hytrach nag 1% ar draws y Fro).<br>Mae hyn yn dangos bod rhai pobl yn y gymdogaeth yn cael mynediad gwahanol i'r farchnad swyddi ac efallai nad ydynt â chymwysterau da ar gyfer y swyddi sydd ar gael. |
| Incwm yr aelwyd | Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau incwm teulu o'i chymharu â chymdogaethau eraill yn y Fro. Dengys hyn y gallai rhai teuluoedd ddioddef effeithiau amddifadedd a chael problem cael dau ben llinyn ynghyd.<br>Yn ddiweddar, rhannodd 80% o denantiaid fod ganddynt rywfaint o ddealltwriaeth o Gredyd Cynhwysol a sut y bydd hyn yn effeithio arnynt. |

# Gwybodaeth allweddol i'r gymuned (parhad)

| | |
|---|---|
| Trosiant eiddo | Daeth 14 eiddo yn wag y llynedd sef tua 7% o'r stoc dai yn yr ardal. |
| Tenantiaid gweithgar | Mae gan yr ardal fwrdd preswylwyr gweithredol, Tŷ Cadoc, a ffurfiwyd gyda thenantiaid yn byw yn Nhreharne. Yn ddiweddar mae'r grŵp wedi cael trafferth denu aelodau newydd ond maent yn dal i fod yn ymrwymedig i wella'r ardal leol.<br>Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau cymunedol yn yr ardal gan gynnwys diwrnod ymwybyddiaeth Credyd Cynhwysol a diwrnod hwyl Calan Gaeaf i deuluoedd – dangosodd y ddau achlysur lefelau rhagorol o ymgysylltu â thenantiaid, gan gynnwys wrth drefnu'r digwyddiadau.<br>Llwyddodd grŵp Preswylwyr Tŷ Cadoc hefyd i wneud cais i nifer o sefydliadau grantiau i sicrhau cyllid i ddatblygu gwelyau blodau a gerddi cymunedol yn yr ardal. |
| Trosedd a niwsans | Mae'r prif droseddau a adroddwyd i'r Heddlu (fesul 100 o breswylwyr) yn cynnwys troseddau treisgar (2.1) a difrod troseddol (1.6). Mae'r ddau yn uwch na lefelau'r Fro a Chymru.<br>Mae'r lefelau byrgleriaeth yr adroddwyd amdanynt (0.6), YGG (2), a lladrad (0.3) yn is nag ardaloedd eraill yn y Fro. |
| Iechyd a llesiant | Mae iechyd 31% o breswylwyr yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd y Fro.<br>Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau iechyd ac anabledd pobl o'i chymharu â chymdogaethau tebyg yn y Fro. Gallai hyn ddangos y gallai fod mwy o bobl na'r arferol gyda phroblemau symudedd o un math<br>neu'i gilydd, a'u bod angen rhywfaint o gymorth meddygol tymor hir yn eu cartrefi, ac efallai eu bod yn teimlo'n eithaf ynysig. |
| Pobl ifanc | Mae cyfran y bobl ifanc sy'n byw yn yr ardal yn unol â chyfartaledd y Fro, ar oddeutu 19%.<br>Ychydig o ddarpariaeth a wneir ar gyfer Pobl Ifanc trwy Glybiau Ieuenctid, grwpiau cymdeithasol. |
| Addysg | Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol ymhlith y chwartel isaf o'u cymharu ag ardaloedd eraill yn y Fro gyda sgoriau cyrhaeddiad cyfartalog yn is na'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4.<br>Mae cyfraddau absenoldeb disgyblion yn uwch na chyfartaledd y Fro yn yr Ysgol Gynradd (7%) a'r Ysgol Uwchradd (9%). |
| Mannau agored | Mae amrywiaeth o fannau agored y gallai'r gymuned eu defnyddio. Lawntiau Hathaway a Stratford.<br>"Mannau gwyrdd gwych i'r plant chwarae." "Mae'r lawntiau'n wych!" |
| Graddfeydd yr ystad | Graddiad cyffredinol yr ystad yw 3. Ymhlith y materion sy'n codi dro ar ôl tro, ceir tipio anghyfreithlon, sbwriel a gwrychoedd sydd wedi gordyfu sy'n ffinio â llwybrau ar draws yr ystad. |

# Gwybodaeth leol:
## Archwilio eich ystâd

Er bod y dangosyddion yn dangos tueddiadau defnyddiol ac yn dangos y ffordd inni i'r cyfeiriad cywir, mae angen mwy o wybodaeth leol arnom i adnabod rhai o'r materion penodol y mae angen inni ymdrin â hwy.

I gasglu'r wybodaeth hon, rydym wedi cynnal archwiliad cymdogaeth, gan holi pobl sy'n byw ac yn gweithio yma i nodi beth yw'r problemau yn eu barn nhw.

| **Barn/sylwadau preswylwyr** | |
|---|---|
| Mae'r ardal gyfan yn elwa o gymunedau sefydledig a throsiant isel o eiddo. | Mae amlder pobl yn symud i mewn ac allan o'r gymdogaeth yn isel ac mae'n hawdd gosod y mwyafrif o eiddo. Ardal y garejys - ymddangosiad gwael, llawer o leoedd gwag - allwn ni wneud rhywbeth yn wahanol? |
| Mae ymddangosiad yr ardal yn dda gyda llawer o fannau gwyrdd.<br><br>Mae sawl coeden yn y gymdogaeth mewn cyflwr gwael ac mae darnau o dir a ddefnyddir y gellid eu troi at well defnydd. | Mae parcio yn broblem mewn rhai rhannau o'r gymdogaeth yn bennaf oherwydd lled rhai ffyrdd a'r diffyg lle sydd ar gael. |
| Mae ymddangosiad cyffredinol eiddo yn yr ardal yn dda, gyda WHQS bellach wedi'i gwblhau. | Hefyd, ceir rhai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael. |
| Cwblhawyd y gwaith WHQS ar yr holl eiddo yn yr ardal ac maent mewn cyflwr da iawn. | Hefyd, ceir rhai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael |
| Mae'r tîm Cymdogaeth yn siarad â phreswylwyr yn rheolaidd ac ar hyn o bryd maent yn gweithio gyda'r fforymau preswylwyr neu'r Grŵp Preswylwyr ymgynghorol lleol. Teimlir bod cyfle i chwarae mwy o ran gyda phreswylwyr yr ardal. Mae diffyg cyfleoedd i gael mewnbwn rheolaidd gan breswylwyr ar draws y gymdogaeth gyfan. | Nid yw pobl yn ein hadnabod yn ddigon da/ dim cyswllt cryf.<br><br>Angen gwybod mwy am ein tenantiaid/ demograffeg. |

## Fel rhan o'r archwiliad cymdogaeth gofynnwyd i denantiaid nodi'r gwasanaethau pwysicaf iddynt; y tri gwasanaeth uchaf yn yr ardal yw:

- Ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal i safon uchel
- Rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithiol
- Sicrhau safon uchel o ansawdd cartrefi yn gyffredinol

## Pan ofynnwyd i'r tenantiaid beth oeddent yn ei deimlo ddylai fod y blaenoriaethau ar gyfer gwella, amlygwyd y canlynol:

- Ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon
- Gwella diogelwch cymunedol
- Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd lleol

# Camau Gweithredu

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Materion amgylcheddol | | |
| Nodi opsiynau i leihau problemau storio sbwriel a'r effaith ar ymddangosiad y gymdogaeth. | Gwella ymddangosiad y gymdogaeth. | O fewn 12 mis |
| Ymgynghori â thenantiaid lleol i ddatblygu cynllun adfywio ystad i wella diogelwch, gan gynnwys goleuadau, teledu cylch cyfyng posib, ffensio ayb. | Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 12 mis |
| Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol i gynyddu'r ddarpariaeth o finiau sbwriel mewn lleoedd cymunedol a chasglu sbwriel i ymdrin â phroblemau parhaus gyda sbwriel. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth a gwella'r amgylchedd lleol.<br>Lleihau'r achosion o daflu sbwriel achlysurol yn y gymdogaeth a lleihau lefel baeddu cŵn mewn ardaloedd cyffredin. | O fewn 6 mis |
| Gweithio mewn partneriaeth â landlordiaid preifat a pherchen-feddianwyr i wella gerddi tai nad ydynt yn rhai awdurdod lleol sy'n cael effaith negyddol. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Adeiladu cymunedau cryfach. | O fewn 12 mis |
| Targedu gerddi sydd wedi gordyfu mewn cartrefi tenantiaid. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 6 mis |

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Datblygu rhaglen wella i'r safleoedd garejys er mwyn dod â'r lle yn ôl i ddefnydd. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Gwella trefniadau parcio lleol. | O fewn 12 mis |
| Cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth cyfleusterau chwarae lleol mewn ymgynghoriad â phreswylwyr, gan gynnwys ystyried gosod offer chwarae ar lawntiau Stratford a Hathaway. | Datblygu lleoedd chwarae diogel i blant a phobl ifanc.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Gwella diogelwch cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol. | O fewn 12 mis |
| Cwblhau archwiliad o fannau gwyrdd yn yr ardal y gellir eu datblygu i greu lleoedd cymunedol neu wella'r amgylchedd lleol. Mae hwn i'w gwblhau mewn ymgynghoriad â phreswylwyr lleol.<br>Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut y gellir defnyddio mannau gwyrdd a thir gwastraff i gynyddu parcio. | Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Cynyddu'r parcio sydd ar gael yn yr ardal. | O fewn 12 mis |
| **Trosedd a diogelwch** | | |
| Cynyddu'r wyliadwriaeth ffisegol mewn mannau problemus ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) gan weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a Bro Ddiogelach | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Gweithio gyda'r Heddlu a Bro Ddiogelach ar wella diogelwch a chynllun plismona mwy cyffredinol sy'n targedu defnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddau cerbydau a throsedd yn erbyn grwpiau agored i niwed. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i ddatblygu gweithgareddau dargyfeiriol gyda phobl ifanc trwy weithgareddau allgymorth e.e. Pêl-droed, Clwb Beicio ayb. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. Darparu gweithgareddau yn y gymuned. Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant. | O fewn 3 blynedd |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Adeiladu rhwydwaith o hyrwyddwyr tenantiaid a fydd yn gweithredu fel "cymdogion da" i gefnogi pobl sy'n byw yn yr ardal leol ac adrodd am unrhyw bryderon i'r Tîm Cymdogaeth neu PCSO's fel y bo'n briodol. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| **Cymunedau gweithgar** | | |
| Hyrwyddo bancio amser a chynyddu nifer oriau gwirfoddoli tenantiaid, gan gynnwys cychwyn casglu sbwriel gwirfoddol yn yr ardal. | Datblygu cysylltiadau cymunedol da. Darparu mwy o weithgareddau cymunedol.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant. | O fewn 6 mis |
| Adolygu cyfleusterau a gweithgareddau cyfredol i bobl ifanc. | Gwella gwasanaethau lleol.<br>Adeiladu ymgysylltu cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Gwella iechyd a llesiant.<br>Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 12 mis |
| Adolygu'r gwasanaethau cynhwysiant digidol cyfredol sydd ar gael yn yr ardal a gweithio gyda thenantiaid i nodi'r cynnig digidol gorau ar gyfer yr ardal. | Cefnogi tenantiaid agored i niwed. Darparu gwasanaethau cynhwysiant digidol. Gwella ymgysylltiad cymunedol.<br>Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth.<br>Darparu gwasanaethau cyngor ariannol. | O fewn 12 mis |
| Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Buddsoddi Cymunedol a phreswylwyr lleol i ddatblygu cynllun i redeg mwy o weithgareddau iechyd a llesiant yn yr ardal. | Gwella iechyd a llesiant. Darparu gweithgareddau cymunedol. Gwella ymgysylltu cymunedol.<br>Cefnogi tenentiaid agoredi niwed.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. | O fewn 3 blynedd |
| Nodi gofod cymunedol neu atebion symudol i alluogi'r Tîm Rheoli Cymdogaeth i dreulio amser yn gweithio yng nghalon y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys creu gofod y gall preswylwyr lleol ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau cymunedol. | Gwella ymgysylltu cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. | O fewn 3 blynedd |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Ymgynghori â thenantiaid i nodi pa wasanaethau cyflogaeth a hyfforddiant yr hoffent gael mynediad atynt i greu pecyn wedi'i deilwra ar gyfer preswylwyr sy'n byw yn yr ardal. | Darparu mwy o weithgareddau cymunedol.<br>Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Adolygu gwasanaethau cymunedol yn yr ardal ar gyfer pobl hŷn a gweithio gyda'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i ddatblygu ystod o brojectau sy'n addas ar gyfer pobl hŷn. | Darparu gweithgareddau cymunedol. Cefnogi tenantiaid agored i niwed. | O fewn 12 mis |
| Creu cardiau cyswllt i'r Tîm Cymdogaeth, gan gynnwys lluniau a gwybodaeth gyswllt ar gyfer swyddogion. Yna bydd y rhain yn cael eu danfon i holl eiddo Cartrefi'r Fro yn yr ardal. Bydd y rhain hefyd yn cynnwys manylion Teithiau Cerdded Cymdogaeth. | Gwella ymgysylltu cymunedol.<br>Gwella cysylltiadau cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. | O fewn 6 mis |
| Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Buddsoddi Cymunedol a phreswylwyr lleol i gychwyn clwb garddio a all helpu i ofalu am fannau cymunedol, galluogi pobl hŷn i rannu eu gwybodaeth ac addysgu tenantiaid newydd sut i reoli eu gerddi yn llwyddiannus. Trwy ddefnyddio bancio amser, gallai hyn hefyd fod yn gyfnewidfa sgiliau. | Darparu gweithgareddau cymunedol. Gwella ymgysylltu cymunedol Cefnogi tenantiaid agored i niwed.<br>Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant.<br>Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Gweithio gyda phreswylwyr lleol, darparwyr gwasanaeth a busnesau lleol i weld a ellir gwella mynediad at wasanaethau i'r rheini sy'n byw yn yr ardal, er enghraifft menter gydweithredol llysiau leol neu ddosbarthu eitemau ayb. | Gwella ymgysylltu cymunedol. Cefnogi tenantiaid agored i niwed.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. | O fewn 3 blynedd |

# Sut i gysylltu â ni:

## Dros y ffôn:

01446 700111

## Drwy e-bost:

housingmanagementteam@bromorgannwg.gov.uk

@valehomes Cartrefi'r Fro

## Yn ysgrifenedig:

Depo'r Alps, Quarry Road, Gwenfô CF5 6AA

## Drwy'r we:

www.bromorgannwg.gov.uk

## Yn bersonol:

Derbynfa Tai, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn,
Y Barri

8:30 i 5:00 pm o ddydd Llun i ddydd Iau

8:30 i 4:30 pm dydd Gwener